# Pwyllgor Craffu Cymunedau
# 4 Tachwedd 2021

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Annwen Hughes, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Elfed p. Roberts, Angela Russell, Mike Stevens, Gethin Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Natalie Jones (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Rebeca Jones (Rheolwr Cynllunio Polisi Cynllunio ar y Cyd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Linda Morgan, Kevin M Jones, Aled Wyn Jones ac Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## 3. MATERION BRYS

Ni fu mater brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 23 Medi 2021 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD ADOLYGU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cyflwynwyd adroddiad gan yr aelod cabinet dros Amgylchedd drwy nodi bod yr adroddiad yma gerbron y Pwyllgor ar gyfer derbyn sylwadau'r aelodau.

Eglurodd y Rheolwr Polisi Cynllunio ar y Cyd bod gofyniad ar y Cyngor i baratoi adroddiad adolygu cryno a chynnwys rhai pethau penodol e.e. wybodaeth fydd yn cael ei hystyried i lywio'r Cynllun datblygu lleol.

Cyfeiriwyd at Atodiad 1 a nodwyd ei fod wedi rhannu i mewn i 6 rhan. Trafodwyd y rhannau i gyd yn drylwyr gan esbonio pwrpas bob un.

Trafodwyd y camau nesaf sef bod ymgynghoriad cyhoeddus am 6 wythnos cyn bydd adroddiad terfynol yn dod gerbron y Cyngor Llawn. Gofynnwyd I'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad adolygu drafft a chynnig sylwadau ar faterion fydd angen eu hadolygu wrth baratoi'r cynllun diwygiedig.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau fel a ganlyn:

- Holwyd pam fod y Cyngor yn cynllunio ar y cyd efo Môn gan nad oes yr un Sir arall yng Nghymru sy'n cydweithio yn yr un modd. Nododd bod Gwynedd gyda'u hanghenion unigryw sy'n haeddu cynllun unigol.
- Cyfeiriwyd at dudalen 53 yn y rhaglen lle nodwyd bod y ddarpariaeth tai wedi disgyn o dan darged.
- Nodwyd bod effaith ar gymunedau gan nad yw cynlluniau Wylfa yn parhau ac awgrymwyd dylai'r nifer tai a ddynodir yn y cynllun fod yn amodol ar ddatblygiadau yn cael eu gwireddu rhag peryglu cymunedau.
- Codwyd cwestiynau ynghylch dymchwel ac ail-adeiladu tai o fwy o faint a'r effaith amgylcheddol. Er yn fwy costus i'w brynu gallai tŷ newydd mwy o faint fod yn fwy gost effeithiol gyda'r costau rhedeg yn is.
- Mynegwyd pryder ynghylch codi tai heb fod yr angen yno a nodwyd nad oeddent yn fforddiadwy i fwyafrif o drigolion Gwynedd a Môn.
- Croesawyd yr adolygiad a chytunwyd a sylwadau'r aelodau eraill ynghylch angen y tai newydd gan fod poblogaeth Gwynedd a Môn yn statig.
- Awgrymwyd bod angen tai fforddiadwy marchnad leol ar draws y siroedd ac nid mewn rhai ardaloedd yn unig gan fod tystiolaeth yn dangos bod tai allan o gyrhaeddiad mwyafrif y bobl leol.
- Holwyd ynghylch y cynllun peilot 'Scottish Power' gan fod tlodi tanwydd ym Mhenllyn ond nad yw'r cynllun yn ei gynnwys.
- Mynegwyd balchder bod ystyriaeth yn cael ei roi i fioamrywiaeth, fodd bynnag tynnwyd sylw at y diffyg trafodaeth ar yr ardal AHNE.
- Codwyd pwynt ynghylch defnyddio deunyddiau lleol megis llechi lleol ar dai sy'n cael eu hadeiladu er mwyn sicrhau gwaith yn y chwarel ac arian yn aros yn lleol.
- Mynegwyd siom nad oes modd i blant o deuluoedd ffermio aros yn eu cartrefi gan nad oes modd iddynt adeiladu tai ar y tir. Ategwyd bod hyn yn arwain at ffermydd yn cael eu gwerthu.

Mewn ymateb nododd y Swyddogion y canlynol:

- Cytunwyd bod y sefyllfa yn wahanol erbyn hyn yn dilyn newyddion nad oes datblygiad wylfa ar y gorwel a bod hyn yn cael ei gynnwys wrth ddiwygio'r cynllun.
- Nododd bod sicrhad y bydd tystiolaeth gadarn ei hangen er mwyn datblygu tai a bod yr angen lleol ar eu cyfer yna.
- Ategodd ei fod yn hynod berthnasol o bob agwedd y cynllun newydd ar gyfer bob math o ddatblygiad eu bod yn cwrdd â gofynion carbon y Cyngor.
- Atgoffwyd y Pwyllgor bod papur wedi bod ger eu bron yn ymwneud ag ail gartrefi ac o ganlyniad cyflwynwyd adroddiad i'r Senedd.

- Nodwyd bod gwybodaeth ynghylch cynllun 'Scottish Power' ar eu gwefan er mwyn derbyn fwy o wybodaeth ar yr ardaloedd sy'n rhan o'r cynllun.
- Cydnabuwyd pwynt yr aelod ar ddefnydd o ddeunyddiau lleol, fodd bynnag nododd ei fod yn anghyfreithlon gosod amodau ar ddeunyddiau a dim ond amod sy'n sicrhau bod y deunydd yn debyg o ran edrychiad sy'n bosib ei wneud.
- Awgrymwyd y dylai'r aelodau gymryd rhan yn yr ymgynghoriad er mwyn lleisio eu barn ar y pwyntiau sydd wedi codi yn y Pwyllgor heddiw ond sydd tu hwnt i gylch gwaith yr adroddiad.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 6. CYNLLUN GWEITHREDU HAWLIAU TRAMWY

**Agorwyd y drafodaeth gan yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd drwy nodi pwrpas y drafft terfynol yw derbyn sylwadau gan aelodau'r Pwyllgor.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Cefn Gwlad gan nodi bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn y sylwadau ar y cynllun ddrafft terfynol. Cyfeiriwyd at ffactorau sydd wedi ei amlygu o fewn yr adroddiad sef rhaglen diwygio mynediad, adnoddau ychwanegol a grantiau i'r gwasanaeth.

Nododd bod camau gweithredu yn parhau fel yr oeddent a rhain fydd yn arwain y gwaith. Ategodd na fydd angen paratoi rhaglenni gwaith manwl, serch hynny bydd rhaid gwneud fesul blwyddyn neu dwy flynedd.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau fel a ganlyn:

- Holwyd sut mae'r cynllun yn gweithio ar hyn o bryd, oes unrhyw broblemau megis rhai tirfeddianwyr yn gwrthod cydymffurfio.
- Diolchwyd am yr adroddiad a gofynnwyd beth yw gofynion y Ddeddf Anableddau mewn perthynas â mynediad at y rhwydwaith llwybrau.
- Awgrymwyd y dylai fod gan y Cyngor gofnod ar eu gwefan sy'n nodi hygyrchedd y rhwydwaith ar gyfer pobl ag anableddau.
- Gofynnwyd faint o gynnydd sydd wedi ei wneud yn asesu llwybrau, gan gyfeirio at adroddiad o 2004/5 a nododd bod 25% o'r rhwydwaith wedi ei hasesu bryd hynny.
- Ategwyd y byddai man addasiadau yn gwneud byd o wahaniaeth i'r anabl, gan gyfeirio at gŵyn lleol yr aelod a gofynnwyd am ganllaw ar gychwyn llwybr yn y ward er mwyn hwyluso hygyrchedd i berson dall.
- Diolchwyd am yr holl waith gan nodi bod milltiroedd o lwybrau angen eu hasesu ac felly rhoddwyd cydnabyddiaeth ei fod yn dasg heriol. Cyfeiriwyd at y mwynhad mae pobl wedi cael yn cerdded y llwybrau yma dros y cyfnodau clo.
- Ategwyd at hyn gan nodi y buasai modd o gofnodi nifer defnyddwyr y llwybrau yn ddefnyddiol.
- Holwyd am gyflwr y llwybrau sydd heb fod ar agor ers tro oherwydd diffyg cynnal a chadw.
- Dylid cyflwyno adroddiad yn y dyfodol i'r Pwyllgor ar gyflwr y rhwydwaith.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Cefn Gwlad:

- Yn sgil y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) sefydlwyd tir agored ar gyfer mynediad ar yr ucheldir a hefyd cynlluniau a oedd yn targedu sector amaeth gyda grantiau yn sgil hynny. Ategodd bod y maes yn cael ei asesu ar hyn o bryd yn sgil ‘Brexit’.
- Ar y materion mynediad a hygyrchedd, bod y tirlun yn amrywio ag bod rhai sefyllfaoedd pan mae’r llwybrau ar dir anwastad o safbwynt mynediad. Ategodd bod cyfle yn sgil rhaglen grant i wella llwybrau a’r rhwydwaith, yn yr achos yma gobeithio hwyluso mynediad i bawb. Cyfeiriodd at enghraifft sef tynnu camfeydd ar gyfer sicrhau hygyrchedd.
- Bod yr adran yn edrych ar ffyrdd i wella gwybodaeth ar y rhwydwaith gan nad oes llawer o wybodaeth i'w roi ar gyflwr y rhwydwaith ar hyn o bryd. Ategodd bod angen sefydlu pa rai sy’n hawdd eu defnyddio ac yn agored i'w ddefnyddio.
- Ychwanegodd y Pennaeth Amgylchedd bod y Parc wedi gwella llwybrau a bydd yr adran yn cydweithio efo’r parc i gynllunio gwybodaeth ar gyfer hygyrchedd llwybrau Gwynedd.
- Yn sicr bydd yr adran yn ystyried opsiynau sydd ar gael i wella hygyrchedd fodd bynnag ategodd bod maint y rhwydwaith yn her yn ogystal â nifer staff.

**PENDERFYNIAD**

**a) Derbyn y cynllun drafft terfynol gan nodi’r sylwadau a dderbyniwyd i’w hymgorffori yn y ddogfen er ymgynghoriad cyhoeddus.**

**b) Derbyn yr adroddiad yn dilyn y cyfnod ymgynghori gan nodi’r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 7. STRWYTHUR LLYWODRAETHIANT A THREFNIADAU CYFLAWNI BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MON, AC ADRODDIAD CYNNYDD AR YR ASESIADAU LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

Trafodwyd fod yr is-grŵp cartrefi o dan y bwrdd bellach wedi dod i ben gan ei fod wedi cyflawni ei bwrpas.

Eglurwyd bod llawer o gynnydd wedi bod yn blaenoriaethu yr iaith Gymraeg – mae prosiect am gael ei gyd-ariannu i weld pam nad yw nifer o Gymry yn defnyddio’r Gymraeg wrth gysylltu efo cyrff ehangach lleol.
Eglurwyd bod cynllun peilot ar waith efo’r prosiect Newid Hinsawdd yn ardal Porthmadog, aethpwyd ati i egluro bod bwriad i ehangu’r ardaloedd ymhellach yn y dyfodol.

Nododd bod gwaith yr Asesiad Llesiant yn mynd yn ei flaen. Bu asesiad llesiant yn 2017 ymysg yr ardaloedd. Gofynnir i'r gwaith asesu yma gael ei wneud fesul 5 mlynedd, sef pam fod yr asesu wedi cychwyn arni eto. Eleni, mae’r gwaith asesu yma yn cyd-fynd efo’r Fframwaith Adfywio, sef cynllun ymgysylltu sydd ar waith yng Ngwynedd. Gobeithir fydd yr asesiad yma wedi gorffen erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd cynllun pellach yn dilyn hynny.
Mae'r Bwrdd yn cynnig i'r adroddiadau gael eu cyflwyno fesul 6 mis yn hytrach na’r drefn bresennol o gyflwyno adroddiad tair gwaith y flwyddyn.

Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd y swyddog i sylwadau'r aelodau fel a ganlyn:

- Nodwyd fod yr is-grŵp sydd yn dod i ben o bosibl am gael ei ail bwrpasu at y dyfodol i gael mwy allan o'u gwybodaeth nhw.
- Eglurwyd bod trafodaethau pellach efo'r gymuned yn y prosiect ymgysylltu am nodi os oes angen rhoi blaenoriaeth ar Economi'r gymuned, ac Hinsawdd yn yr un modd.

**PENDERFYNIAD**

**a) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd**
**b) Cytuno i graffu gwaith y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn.**

**8. RHAGLEN WAITH CRAFFU DDIWYGIEDIG 2021-22**

Cyflwynwyd y rhaglen waith diwygiedig i'r Pwyllgor ar gyfer ei dderbyn. Tynnwyd sylw bod yr eitemau 'Newid Hinsawdd' a 'Diweddariad – Biniau Halen' wedi eu hychwanegu i raglen cyfarfod 10 Mawrth 2022.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau yng nghyswllt amseriad craffu'r eitem 'Diweddariad – Biniau Halen', nododd yr Ymgynghorydd Craffu y byddai'n cysylltu gyda'r Adran i dderbyn cadarnhad o'r trefniadau llenwi biniau halen, er sicrhau ei fod yn amserol i graffu'r mater yng nghyfarfod mis Mawrth.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr rhaglen waith ddiwygiedig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12:35yp.

Cadeirydd